# Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen Canfyddiadau Allweddol ynglŷn â Llythrennedd a Rhifedd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb o'r Ymchwil | Ymchwil gymdeithasol | Rhif: 10/2015

Mae'r Cyfnod Sylfaen (a gyflwynwyd yn 2008) yn darparu cwricwlwm dysgu trwy brofiad sy'n briodol yn ddatblygiadol i blant 3-7 oed yng Nghymru. Nod y gwerthusiad annibynnol (a arweiniwyd gan WISERD) a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yw gwerthuso pa mor dda y mae'n cael ei roi ar waith, pa effaith y mae wedi'i chael, a ffyrdd y gellir ei wella. Mae'r gwerthusiad tair blynedd yn defnyddio ystod o ddulliau cymysg ar raddfa genedlaethol a lleol.

Mae'r papur hwn yn un o bump sy'n canolbwyntio ar **ymarfer**. Mae'n defnyddio 239 o arsylwadau ystafell ddosbarth a lleoliad, 341 o gyfweliadau ag ymarferwyr, 604 o ymatebion i arolwg gan ysgolion a lleoliadau, 37 o gyfweliadau ag Awdurdodau Lleol a phedwar cyfweliad â sefydliadau nas cynhelir.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

**Canfyddiadau Allweddol**

- Roedd y rhan fwyaf o arweinwyr y Cyfnod Sylfaen o'r farn y bu **rhywfaint o welliant o leiaf** mewn sgiliau llythrennedd a rhifedd plant ers cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.
- Adroddodd rhanddeiliaid allweddol awdurdodau lleol y bu **dychweliad at ganolbwyntio ar ddulliau mwy ffurfiol o addysgu llythrennedd a rhifedd** (yn enwedig yn y boreau), a oedd, yn eu barn hwy, mewn ymateb i'r pwysau i godi safonau.
- Adroddodd ymarferwyr Blwyddyn 3 a rhanddeiliaid awdurdodau lleol fod **sgiliau llafaredd a chyfathrebu plant wedi gwella o ganlyniad i'r Cyfnod Sylfaen,** a oedd wedi helpu plant i ddod yn fwy hyderus wrth drosglwyddo i CA2.
- Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod **'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' wedi'i ymsefydlu'n fwy yn addysgeg y Cyfnod Sylfaen,** o gymharu â 'Datblygiad Mathemategol' sy'n digwydd ar ffurf fwy 'penodol' mewn ystafelloedd dosbarth.

**Canfyddiadau Allweddol Ychwanegol**

Roedd dros 70% o benaethiaid o'r farn mai llythrennedd a rhifedd oedd y **materion mwyaf dybryd** yn addysg y blynyddoedd cynnar.

Roedd y rhan fwyaf o arweinwyr y Cyfnod Sylfaen yn credu **bod y Cyfnod Sylfaen wedi golygu o leiaf rhywfaint o welliant** yn y meysydd dysgu 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' a 'Datblygiad Mathemategol' o gymharu â'u rhagflaenwyr[1].

Roedd rhai arweinwyr y Cyfnod Sylfaen yn credu bod **camddehongli arweiniad y Cyfnod Sylfaen gan rai ymarferwyr** wedi arwain at ddirywiad mewn safonau Llythrennedd a Rhifedd oherwydd gormod o ddewis gan blant a dim digon o addysgu sgiliau sylfaenol.

Roedd y rhan fwyaf o arweinwyr y Cyfnod Sylfaen, penaethiaid a rhanddeiliaid awdurdodau lleol yn **anghytuno â chyflwyno'r profion Llythrennedd a Rhifedd,** gan eu bod yn teimlo nad oedd eu ffurfioldeb yn ddull asesu priodol yn dilyn addysgeg dysgu trwy brofiad a oedd seiliedig ar chwarae.

Roedd lleiafrif o ymarferwyr a phenaethiaid o'r farn na fyddai cyflwyno'r fframwaith llythrennedd a rhifedd ynddo'i hun yn newid y ffordd yr oeddent yn rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Roedd rhai hefyd yn pryderu bod plant yn cael eu rhoi o dan amodau tebyg i arholiad, a bod **cynnwys ymarfer a pharatoi am brofion yn y drefn ddyddiol mewn ymateb i'r profion Llythrennedd a Rhifedd yn golygu bod elfennau o'r Cyfnod Sylfaen yn cael eu colli.**

**Mewn cyferbyniad, roedd 85% o rieni/gofalwyr** y cymerodd eu plant ran yn y profion Llythrennedd a Rhifedd cyntaf yn 2013 naill ai'n 'fodlon' neu'n 'fodlon iawn' i'w plant gymryd rhan.

O'r holl blant Blwyddyn 2 a arolygwyd, **dywedodd dros hanner eu bod yn hoffi gwaith darllen, ysgrifennu a rhif 'llawer'.** Ni chanfuwyd unrhyw gysylltiad rhwng mwynhad plant o'r pynciau hyn a'r graddau yr oedd addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn cael ei defnyddio yn arolwg Blwyddyn 2. Fodd bynnag, **roedd plant mewn ystafelloedd dosbarth a oedd yn rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith i raddau mwy yn ymddangos yn fwy brwdfrydig** wrth siarad am ddysgu (a oedd yn canolbwyntio ar ddarllen, ysgrifennu a mathemateg) o gymharu ag ystafelloedd dosbarth a oedd yn rhoi'r

[1] CA1 mewn Ysgolion a Chanlyniadau Dymunol mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir.

Cyfnod Sylfaen ar waith i raddau llai.

Er bod y dulliau o weithredu'r meysydd dysgu 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' a 'Datblygiad Mathemategol' yn y Cyfnod Sylfaen yn amrywio ar draws ysgolion ac ystafelloedd dosbarth, mae rhai tueddiadau'n parhau. Er enghraifft, roedd **canran uwch o achosion lle yr arsylwyd bod plant yn ymwneud â gweithgaredd llythrennedd neu rifedd mewn sesiynau bore**, ni waeth i ba raddau yr oedd y Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith. (Nododd y rhan fwyaf o ymarferwyr fod plant yn canolbwyntio fwyaf yn y bore.)

Amlygodd dadansoddiad o ysgol astudiaeth achos, **o gymharu â meysydd dysgu eraill,** fod gweithgareddau 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' a 'Datblygiad Mathemategol' yn tueddu i fod yn fwy strwythuredig a didactig eu natur, e.e. roedd oedolion yn fwy tebygol o fod yn bresennol, gan gychwyn neu gyfeirio gweithgareddau, ac roedd llai o ryngweithio rhwng plant a mwy o ddefnydd o ddalenni gwaith.

Mewn ystafelloedd dosbarth a oedd yn defnyddio ystod ehangach o addysgeg y Cyfnod Sylfaen, roedd gweithgareddau'r meysydd dysgu 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' a 'Datblygiad Mathemategol' yn **fwy tebygol o fod yn weithgareddau archwiliol, egnïol ac ymarferol**. Fodd bynnag, mewn ystafelloedd dosbarth lle'r oedd yr addysgeg yn ymwneud llai â'r Cyfnod Sylfaen ac yn fwy 'traddodiadol' ei natur, roedd **canran uwch o weithgareddau desg, dosbarth cyfan.**

**O ddadansoddi Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion, canfuom fod plant ddwywaith yn fwy tebygol o gyflawni canlyniadau disgwyliedig** mewn 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' a 'Datblygiad Mathemategol' os yw'r meysydd dysgu hyn yn cael eu rhoi ar waith gyda **lefel uwch o ddewis/cyfranogiad gan blant.**

Awduron: Mirain Rhys, Samuel Waldron, Chris Taylor
ISBN: 978-1-4734-2951-2

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 4 Chwefror 2015
© Hawlfraint y Goron 2015

OGL

Pob cynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, heblaw am pryd y nodwyd fel arall.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/